



Gan ddefnyddio ein rhwydwaith byd-eang, gallwn ni'ch helpu i gael hyd i bartner neu gwsmer delfrydol mewn rhagor na 50 o wledydd. Mae gennym arbenigwyr ar lawr gwlad sy'n siarad yr iaith, sy'n gyfarwydd â'r arferion busnes a chymdeithasol ac sy'n gwybod sut orau i gysylltu â darpar gwsmeriaid.

Sut fedrwch chi elwa?

Os ydych wedi dewis eich marchnad darged ac yn barod i chwilio am gyfleoedd, yna gall y rhaglen Cyfleoedd Masnachu Rhyngwladol (ITO) eich helpu trwy:

- Roi gwybodaeth fusnes ar y lefel leol ichi
- Cyngor ar yr amodau a'r rheolau busnes lleol
- Cael hyd i ddarpar gwsmeriaid, asiantwyr neu ddsbarthwyr
- Cysylltu â darpar gwsmeriaid, asiantwyr neu ddsbarthwyr
- Trefnu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb â'r bobl berthnasol
- Eich helpu yn ystod eich amser yn y farchnad

Gallai ITO fod y cam nesaf ar ôl prosiect Datblygu Masnach Ryngwladol, i'ch helpu cyn ac yn ystod taith fasnach neu Ymweliad Datblygu Busnes Dramor.

Mae ITO ar gael i allforwyr newydd a phrofiadol, waeth beth yw'ch maint. Bydd Llywodraeth Cymru'n helpu gyda 75% o gost y prosiect, gan ddibynnu ar yr hyn sydd ar gael, a gofynnir i gwmnïau gyfrannu 25% o gost y prosiect.

"Er ein bod wedi allforio i Asia o'r blaen, mae'r help rydym wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru gyda marchnadoedd newydd trwy raglen ITO wedi bod yn wych. Mae ITO yn ein barn ni yn rhoi'r arfau ichi allu dewis y partneriaid iawn, yn enwedig mewn marchnadoedd newydd.

Byddem yn falch o'r cyfle i gael cymryd rhan eto yn y dyfodol yn rhaglenni Llywodraeth Cymru gan eu bod wedi'u trefnu mor dda."

Peter Jones, Rheolwr Datblygu Busnes –
Gwerthiannau Allforio Dairy Partners.

Busnes | Business
Cymru | Wales

Os ydych yn meddwl y gallech elwa ar y cymorth hwn, cysylltwch â Busnes Cymru ar 03000 6 03000 neu anfonwch e-bost i bwyd-food@gov.wales businesswales.gov.wales/foodanddrink

 [@BwydaDiodCymru](https://twitter.com/BwydaDiodCymru)